




PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

 Canolfan Defnydd
Tir Cynaliadwy
Sir William Roberts
Centre for
Sustainable Land Use

CYNNAL - SUSTAIN

Canolfan Defnydd Tir Cynaliadwy
Sir William Roberts
Newyddlen
Gwanwyn 2023





CROESO



Gan Norman Dandy,
Cyfarwyddwr, Canolfan Syr William Roberts

GWANWYN 2023
RHIFYN 5



“Croeso i rifyn Gwanwyn 2023 o Cynnal-Sustain, lle byddwch yn dod o hyd i'r newyddion diweddaraf ar amrywiaeth eang o ymchwil cynaliadwyedd tir sy'n cael ei gwneud ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Bangor. Bydd Ffion Evans yn cyflwyno ei hymchwil ddoethurol ar amaethyddiaeth gylchol, Sofie Roberts a Thora Tenbrink yn rhannu eu profiadau diweddar yn gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol Gwynedd sy'n ymwneud â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a bydd Sophie Wynne-Jones yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei gwaith fel Cymrawd o fewn Llywodraeth Cymru, yn ceisio pontio'r ymrannu rhwng gwyddoniaeth a pholisi. Gobeithiwn hefyd y bydd gennych ddiddordeb yn ein gwaith newydd ar strategaethau amrywio coedwigoedd a choetiroedd yn y project DiversiTree.

Sefydlwyd Canolfan Syr William Roberts bron i bum mlynedd yn ôl ac roedd Ashley Hardaker a minnau eisiau rhannu rhai sylwadau ar yr hyn a gyflawnwyd – a'r heriau a wynebwyd – dros y cyfnod hwnnw. Nid yw gweithio rhyngddisgyblaethol effeithiol yn digwydd dros nos! Rydym yn hynod ddiolchgar am yr ymdrech a'r amser y mae llawer o'n cydweithwyr wedi'u rhoi i gefnogi datblygiad llwyddiannus y Ganolfan. Gobeithiwn fod Canolfan Syr William Roberts nawr yn ffurfio pridd ffrwythlon y gall yr ymchwil rhyngddisgyblaethol sydd ei hangen i ddiwallu heriau cynaliadwyedd barhau i dyfu ohono.”



Norman Dandy,
Cyfarwyddwr,
Canolfan Syr William
Roberts



AMAETHYDDIAETH GYLCHOL



Mae gweithredu dulliau cylchol mewn amaethyddiaeth yn cael ei chydnabod fwy fwy fel strategaeth addawol i gefnogi trawsnewid gwyrdd tuag at gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy. Mae [Ffion Evans](#), ymchwilydd doethurol ym Mangor, yn edrych ar sut y gallai gweithredu dulliau cylchol wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol amaethyddiaeth. Mae amaethyddiaeth gylchol yn ceisio lleihau mewnbwn adnoddau allanol a chyfyngedig (e.e., ffosforws, tanwydd ffosil, a thir), adennill ac aildefnyddio neu ailgylchu adnoddau a gollwyd (e.e., maetholion, biomas, ynni), ac adfywio systemau naturiol.

Fel rhan o broject Ffion, bydd y potensial i liniaru nwyon tŷ gwydr (GHG) ac effeithiau economaidd mabwysiadu arferion cylchol penodol yn cael eu modelu. Bydd gweithdai rhanddeiliaid gyda ffermwyr, yn ogystal â chynrychiolwyr diwydiant a pholisi, hefyd yn cael eu cynnal i ddeall y rhwystrau a'r cyfleoedd i fabwysiadu dulliau cylchol yn ehangach a'r cyfleoedd i wneud hynny. Bydd y dull amlddisgyblaethol hwn o ymchwilio i ddulliau cylchol gwell yn caniatáu nodi'r arferion cylchol gorau posibl a allai leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol, ac ar yr un pryd, yn gost effeithiol ac yn dderbyniol i ffermwyr.

Bydd Ffion yn rhoi cyflwyniad poster a chyflwyniad 2 funud am y dull hwn, yn y gynhadledd ryngwladol [Agri Food & Climate Circle 2023](#) yn Copenhagen, Denmarc ym mis Mai - i rannu'r hyn a ganfuwyd o'r gweithdai rhanddeiliaid gydag arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant bwyd-amaeth.

Ariennir yr ymchwil doethurol hon gan DEFRA ac mae'n cyfrannu at y project cydweithredol rhyngwladol [CircAgric-GHG](#) sy'n dod â thîm amlddisgyblaethol sydd gyda'r gorau yn y byd ynghyd ag arbenigedd mewn systemau cynydu a da byw integredig, dulliau gweithredu cylchol, lliniaru nwyon tŷ gwydr, modelu (rhyng-)systemau, amaethyddiaeth ddigidol, synhwyro o bell, defnydd cynaliadwy o dir, ac economeg gymdeithasol ffermydd. Amcan cyffredinol CircAgric-GHG yw gwella dulliau gweithredu cylchol, ysgogi mesurau lliniaru nwyon tŷ gwydr a chynaliadwyedd system fwyd ehangach ar raddfeydd lluosog (fferm, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol) ar draws graddiant amaeth-ecolegol sy'n cynnwys hinsoddau arctig, cefnforol, cyfandirol, Môr y Canoldir a throfannol.

Os ydych yn ymwybodol o grŵp o ffermwyr a fyddai â diddordeb yn y project hwn ac yn barod i rannu eu profiadau a'u barn am ddulliau gweithredu cylchol, rhowch wybod i ni (ffion.evans@bangor.ac.uk).



Ffion Evans,
Ymchwilydd Doethurol



Y NEWYDDION YN FYR



Yn ddiweddar dyfarnwyd cyllid i Fangor ar gyfer dau project sy'n canolbwyntio ar agweddau newydd ar fonitro iechyd coedwigoedd a thechnoleg. Bydd y project **FORWARDS** a ariennir gan Horizon Ewrop yn sefydlu arsyllfa ar gyfer Ewrop gyfan er mwyn rhannu data ar darfu ar goedwigoedd, a choedwigaeth er budd hinsawdd. Bydd project ASPEN, dan arweiniad **Norman Dandy**, Cyfarwyddwr Canolfan Syr William Roberts, yn dod ag ymchwilyr o Fangor ynghyd â chydweithwyr ym mhrifysgolion Efrog a Nottingham i ymchwilio i gyfraniad 'systemau awtonomig y gellir ymddiried ynddynt' yn y dyfodol at warchod coedwigoedd.

Ym mis Tachwedd y llynedd llwyddodd Theresa Bodner i amddiffyn ei thesis doethurol Emerging spaces for native woodland growth in Britain's crowded future landscapes. Mae Dr Bodner bellach yn Bennaeth Datrysiadau Seiliedig ar Natur yn **Trove Research** lle mae'n arwain y tîm ar broiectau coedwigaeth, pridd a charbon glas byd-eang. Yn fwy diweddar, mae Hollie Riddell hefyd wedi cwblhau ei hymchwil doethurol Gwella Ôl-Troed Carbon Cynhyrchu Cig Oen, a ariennir gan y Ganolfan. Rydym i gyd yn falch iawn o lwyddiannau Theresa a Hollie ac yn edrych ymlaen at wyllo eu gyrfaoedd yn datblygu.

Mae **Heli Gittins** wedi cyhoeddi **papur** ar rôl ymyriadau sy'n seiliedig ar natur wrth hwyluso mynediad i fyd natur. Dyma'r papur cyntaf o'i hymchwil doethurol a gwblhawyd yn 2020.

Bydd **Seumas Bates** a Norman Dandy o Ganolfan Syr William Roberts yn dod â phanel ynghyd o'r enw **Iechyd coetiroedd: bygythiadau, atebion, a chymunedau** yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Anthropolegwyr Cymdeithasol 2023.

Adroddodd Alex Ioannou gynnydd ar ei ymchwil doethurol **Reframing Wales** i'w gyllidwyr, Cwmni'r Brethynwyr, yn ystod eu hymweliad blynyddol â'r brifysgol ym mis Mawrth.

Daeth mwy na 70 o bobl (yn y cnawd neu ar-lein) i'r ddwy seminar SWRC gyntaf yn ein cyfres 'Beth yw'r dyfodol i goed ar ffermydd?' Ym mis Mawrth, rhoddwyd y gyntaf gan Dr Rebecca Wheeler o Brifysgol Caerwysg (Exeter). Ein siaradwr ym mis Ebrill oedd cyn-fyfyriwr Bangor, Clive Thomas, o The Soil Association. Mae seminarau pellach wedi'u trefnu trwy gydol y gwanwyn.



AMRYWIO EIN COETIROEDD AR GYFER GWYTNWCH

Rydym ni i gyd yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r bygythiadau i goed a choedwigoedd Prydain. Mae'r rhain yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, datblygiad anghyfyngedig, rheolaeth wael, digwyddiadau tywydd eithafol, a chyffredinolrwydd 'plâu' a chlefydau. Mae hyn wedi arwain at ddiddordeb o'r newydd yng ngwytnwch ein coetiroedd – a ddangosir gan gyhoeddiad 2018, er enghraifft, Strategaeth Gwytnwch Iechyd Coed ac yn fwyaf diweddar, Strategaeth Biaddiogelwch Planhigion ar gyfer Prydain Fawr. Mae amrywiaeth – o ran rhywogaethau coed, geneteg, strwythur coedwigoedd, ac yn y dirwedd – yn cael ei nodi'n eang fel elfen hanfodol o'r gwytnwch hwn. Nid yn unig y gall coetiroedd amrywiol gynnal yr 'afreidrydd swyddogaethol' sydd ei angen i sicrhau bod buddion yn cael eu darparu hyd yn oed os collir rhywogaeth o goed, ond gall ecosystem amrywiol roi mwy o wytnwch cychwynnol i fygythiadau.

Mae ymchwilyr Prifysgol Bangor ar ganol cyflwyno'r Project DiversiTree, sy'n ceisio gwella dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng amrywiaeth a gwytnwch, ynghyd â'r strategaethau angenrheidiol ar gyfer cael amrywiaeth mewn coedwigoedd presennol a newydd. Mae amcanion rheoli gwahanol yn creu cyfyngiadau a chyfleoedd amrywiol ar gyfer cael amrywiaeth y mae'r tîm yn gobeithio mynd i'r afael â nhw. I reolwyr ein coedwigoedd cynhyrchiol, mae ysgogwyr logistaidd, gweithredol ac economaidd yn aml yn creu'r amodau sydd fwyaf ffafriol i weithio 'cnydau' coedwig cymharol homogenaidd (h.y. yn cynnwys ystod gyfyngedig o rywogaethau, yn aml yn cynnwys ein coeden bwysicaf yn economaidd, sbriws Sitca (*Picea Sitchensis*)). Mae'n bosibl bod rheolwyr sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni canlyniadau cadwraeth, megis adfer natur, yn ymdrin â choedwigoedd mwy amrywiol yn eu hanfod, ond maent yn aml yn cael eu cyfyngu yn yr un modd gan restrau rhagnodedig o rywogaethau 'brodorol' a allai gyfyngu ar gyfleoedd i gael amrywiaeth. Er enghraifft, gallai rhai coed yr ystyrir eu bod yn anffrodol (e.e. sycamorwydden (*Acer pseudoplatanus*)) a ffawydd (*Fagus sylvatica*) gymryd lle ynn brodorol (*Fraxinus excelsior*) wrth i laddwr yr ynn ymledu drwy ein tirweddau. Fodd bynnag, mae canllawiau cyfredol yn rhybuddio yn erbyn yr opsiwn hwn o dyfu amrywiaeth o goed.



Bydd DiversiTree yn ymchwilio i ddealltwriaeth rheolwyr o amrywiaeth coetir, dichonoldeb strategaethau tyfu amrywiaeth o goed, effaith amrywiaeth microbiomig ar ymwrthedd pathogenaid, ac agweddau ar amrywiaeth a swyddogaeth ecolegol. Nod tîm y Project – sy'n cynnwys cydweithwyr o Sefydliad James Hutton, Prifysgol Birmingham, a Coed Cadw – yw rhoi'r wybodaeth a'r offer sydd eu hangen ar reolwyr coetir i gynyddu gwytnwch eu coetiroedd yn erbyn bygythiadau cyfoes.



Ruth Mitchell o Sefydliad James Hutton, Arweinydd project DiversiTree



CSWR A CHYDWEITHREDIAD RHYNGDDISGYBLAETHOL

Sefydlwyd Canolfan Syr William Roberts (CSWR) bron i bum mlynedd yn ôl, yn 2018, gyda'r nod o feithrin ymchwil ryngddisgyblaethol i gynaliadwyedd ar dir. Mae'r galw am weithio rhyngddisgyblaethol – hynny yw, mynd i'r afael â thasgau ymchwil o fwy nag un safbwynt gwyddonol – wedi dod yn fwyfwy cyffredin, a cheisiodd y Ganolfan gynyddu gallu Bangor i ymateb i'r gofynion hyn. Ers hynny bu rhai llwyddiannau nodedig – gan gynnwys, yn ddiweddar, cwblhau [project ymchwil](#) doethurol cyntaf y Ganolfan – ynghyd â rhai heriau sylweddol.

Ers ei sefydlu, mae ymchwilwyr CSWR wedi bod yn ymwneud â phrojectau i sicrhau wyth project ymchwil newydd gwerth £1.46M i'r brifysgol. Mae ein gwaith yn arbennig o amlwg ym maes coedwigaeth gyda chyfranogiad mewn projectau cyfredol yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth o agweddau microbiomig iechyd coed ([Future Oak](#)), strategaethau amrywio coedwigoedd ([DiversiTree](#)), a llywodraethu monitro coedwigoedd a choedwigaeth er budd hinsawdd ([FORWARDSASP](#)). Mae project newydd arall, yn canolbwyntio ar gyfraniad posibl systemau awtonomaidd i amddiffyn coedwigoedd (ASEN), wedi dechrau yn ddiweddar. Ariannodd y Ganolfan hefyd swydd ymchwil ôl-ddoethurol 12 mis yn canolbwyntio ar fetrigau i fesur cynaliadwyedd defnydd tir, gan arwain at [bapur](#) wedi'i ysgrifennu ar y cyd gyda chydweithwyr ym Mangor a Phrifysgol Galway a datblygu gyrfa [ymchwilydd ar ddechrau eu gyrfa](#). Rydym yn falch iawn o'r llwyddiannau hyn.

Nid yw gweithio rhyngddisgyblaethol effeithiol yn dasg syml o bell ffordd. Mae ein profiad wedi dangos ei fod yn cael ei yrru'n arbennig gan frwdfrydedd ac ymrwymiad unigolion chwilfrydig. Mae esblygiad y Ganolfan yn aml wedi dibynnu ar unigolion o'r fath yn neilltuo amser yn eu bywydau academaidd hynod o lawn i ddilyn syniad diddorol, neu gyfrannu at gynnyg ymchwil newydd. I'r gwrthwyneb, wrth gwrs, diffyg amser yw'r prif rwystr i ddatblygu gweithio rhyngddisgyblaethol.



Gall ymddangos yn amlwg, ond mae'n hollbwysig nodi nad yw gweithio rhyngddisgyblaethol yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae'n ffynnu ar ryngweithio rhwng gwahanol fathau o ymchwilwyr sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd. Mae'r rhyngweithiadau hyn - yn aml sgysiau yn unig - yn hanfodol i ysgogi ffyrdd newydd o feddwl am heriau mawr megis sut i ymateb i newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, gall cydweithio rhyngddisgyblaethol fod yn arbennig o effeithiol pan fydd wedi'i gyfeirio'n glir at ddatrys problem benodol. Yn ein profiad ni felly mae'n hanfodol darparu cyfleoedd (dros y tymor hir) i ymchwilwyr amrywiol ryngweithio yng nghyswllt y problemau hyn - gorau oll, ar y cyd yn profi agweddau ohonynt yn y maes. Gwgir ar y 'siop siarad' yn aml - yn enwedig y tu allan i gylchoedd academaidd - ond mae'n elfen hanfodol o weithio rhyngddisgyblaethol. Gall y cyfnewidiadau hyn fod ar unrhyw ffurf: sgysiau yn y gweithle; seminarau academaidd; cyfarfodydd ag ymarferwyr; neu hyd yn oed mynd â chŵn am dro! Cyrhaeddodd pandemig covid ychydig fisoedd yn unig ar ôl ein digwyddiad lansio yn Henfaes gan roi tolch difrifol yn ein huchelgeisiau ar gyfer rhyngweithio yn y cnawd. Fodd bynnag, mae wedi creu cyfleoedd, [cyhoeddiadau](#) a ffyrdd o weithio newydd, ac rydym yn awr yn cychwyn ar gyfres newydd o seminarau 'hybrid' (a gyflwynir ar-lein ac yn y cnawd) sy'n canolbwyntio ar 'Ddyfodol coed ar ffermydd' yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r dyfodol yn llawn potensial rhyngddisgyblaethol a'n gobaiht yw y bydd CSWR bellach yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu hyn arni yn y sector diwydiannau'r tir. Wrth i waddol hael Syr William ostwng yn ddiweddarach eleni, rhaid inni barhau i chwilio am ffyrdd newydd o greu'r brwdfrydedd, yr amser, y cyfleoedd, y rhyngweithio a'r uchelgeisiau sy'n hanfodol i weithio rhyngddisgyblaethol yn yr hirdymor.





GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD AR LAWR GWLAD: CYNLLUNIADAU CYMUNEDOL AR YR HINSAWDD

Mae gweithredu ar lefel leol yn hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau lluosog newid hinsawdd. Mae GwyrddNi - cydweithrediad rhwng mentrau cymdeithasol dan arweiniad y gymuned a grwpiau ynni cymunedol yng Ngwynedd – yn gweithio i gyflawni'n union hyn. Maent yn ceisio mynd i'r afael â newid hinsawdd o'r gwaelod i fyny drwy Gynullïadau ar lefel gymunedol sy'n rhoi cyfleoedd i bobl drafod a llunio Cynlluniau Gweithredu sy'n nodi blaenoriaethau pob cymuned. Yn ddiweddar, dyfarnwyd cyllid (Cronfa Catalydd LCEE) i Thora Tenbrink a Grant Peisley o Datblygiadau Egni Gwledig, i gynnal ymchwil i'r ymgysylltiadau cymunedol hyn.



Nodau'r ymchwil hon oedd nodi'r materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r hinsawdd a'r ymdrechion i'w datrys. Canfu'r ymchwil dystiolaeth newydd o'r ffordd yr oedd cymunedau lleol yn trafod gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ochr yn ochr â'u hymdeimlad o dreftadaeth a pherthyn. Roedd amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn aml yn cael ei drosi'n warchod eu 'milltir sgwâr', y lle maen nhw'n ei garu a'r diwylliant a'r cymunedau y mae'n eu cynnal. Cyflwynwyd yr ymchwil hon gan Ganolfan Ymchwil Lleoliadau Newid Hinsawdd (PloCC) Prifysgol Bangor a datblygodd ddealltwriaeth o syniadau o synnwyr o le mewn perthynas â newid hinsawdd. Dangosodd, er y gall newid hinsawdd ddigwydd ar raddfa blanedol, ei fod yn cael ei deimlo'n lleol - yn y manau lle rydym yn byw ac yr ydym yn teimlo'n gysylltiedig â hwy.

Roedd proses y Cynulliad nid yn unig yn cadarnhau damcaniaeth academaidd - bod ystyried a thrafod ar y cyd rhwng dinasyddion yn cynhyrchu penderfyniadau 'gwell' - ond hefyd yn tynnu sylw at y cyfoeth o wybodaeth ymhob cymuned: gyda chyfranogwyr yn nodi materion, yn ogystal ag atebion yn seiliedig ar le. Yng nghynllun gweithredu un grŵp nodwyd bod angen nodi a mapio cynefinoedd, er mwyn cefnogi ffyniant rhywogaethau yn y manau cywir ar gyfer bioamrywiaeth, rheoli llifogydd a chynhyrchu bwyd, a chreu clytwaith o ymatebion sy'n addas i le. Aeth y drafodaeth i'r afael â 'beth' yn ogystal â 'sut': gyda'r grŵp yn nodi rhai o'r camau nesaf sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethu rhwng rhywogaethau allweddol ac ymledol yn yr ardal, y posibilïadau o ran creu neu adfer ardaloedd gwlyb, a dod o hyd i bartneriaid (gwirfoddolwyr, tîrfeddianwyr, ceidwaid neu eraill) i gydweithio i wireddu'r cynlluniau.

Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu gwireddu trwy Gam II GwyrddNi a bydd cyfleoedd newydd i gymryd rhan. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sofie Roberts cop402@bangor.ac.uk. Os hoffech chi ymwneud â'r Ganolfan Lleoliadau Newid Hinsawdd, fe welwch gysylltiadau aelodau drwy'r dudalen [Chwilio am Gydweithredwr](#).



CYMORODIAETH POLISI LLYWODRAETH CYMRU



Mae sicrhau bod gweithwyr y llywodraeth yn gwneud y defnydd gorau o'r ymchwil sydd ar gael yn parhau i fod yn dasg allweddol ym maes defnydd tir, fel mewn meysydd eraill. Dros y 15 mis diwethaf mae [Sophie Wynne-Jones](#) o Ganolfan Syr William Roberts wedi bod yn gweithio o fewn Llywodraeth Cymru (LIC) fel rhan o gynllun Cymrodoriaeth a ariennir gan yr ESRC a gynlluniwyd i hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth rhwng y llywodraeth a'r byd academaidd. Yn ystod y Gymrodoriaeth hon mae Sophie wedi'i lleoli yn yr Uned Tystiolaeth Strategol ar gyfer Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac wedi gweithio gyda thimau polisi ar draws y sector defnydd tir.

Fel daearyddwr dynol sy'n arbenigo mewn 'ymddygiad' ffermwyr a pholisi amaeth-amgylcheddol, mae Sophie wedi bod yn gweithio i gefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru i gael mynediad at dystiolaeth ymchwil gymdeithasol a gwneud defnydd priodol ohoni yn eu cynllun polisi defnydd tir. Tasg allweddol fu cefnogi cyd-ddylunio'r [Cynllun Ffermio Cynaliadwy](#), drwy roi cyngor ar arolwg ar-lein, gweithdai a chyfweiliadau gyda ffermwyr, a sicrhau gweithrediad llwyddiannus hynny, drwy haf 2022. Mae'r dystiolaeth sydd wedi codi o hynny bellach yn cael ei defnyddio i lywio dyluniad y cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu i'w ryddhau yn 2025.

Pam fod y gwaith hwn yn bwysig? Os na all neu os na fydd ffermwyr yn ymgysylltu â'r cynllun y mae LIC wedi'i gyflwyno, ni fydd y targedau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a 'sero net' y mae'r cynllun wedi'i gynllunio i'w cefnogi yn cael eu cyflawni. Er ein bod yn gwybod y dylai camau gweithredu'r cynllun gyflawni'r blaenoriaethau hyn o safbwynt amgylcheddol, os nad oes gennym unrhyw fewnwelediad o safbwynt 'ymddygiadol' ynghylch a all ffermwyr gymryd rhan yn y camau gweithredu, ac a ydynt yn fodlon gwneud hynny, rydym yn colli darn allweddol o dystiolaeth. Felly, rôl Sophie oedd sicrhau bod gan LIC y dystiolaeth honno ac y gall ymateb iddi yn unol â hynny: ail-weithio'r cynllun yn ôl yr angen fel ei fod yn ddeniadol ac yn ymarferol i ffermwyr.

Mae tasgau eraill y mae Sophie wedi bod yn ymwneud â nhw yn cynnwys gweithio gyda'r is-adran Goedwigaeth i sicrhau bod yr uchelgeisiau ar gyfer plannu coed yng Nghymru yn cael eu teilwra'n briodol i anghenion a buddiannau rheolwyr tir, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r dull mwyaf gwybodus o gefnogi a chyfathrebu â rheolwyr tir ar y cynigion hyn. Mae hi hefyd wedi bod yn gweithio gydag is-adran y Môr a Physgodfeydd i'w helpu i ddatblygu cynlluniau ariannu newydd i adeiladu [capasiti mewn cymunedau arfordirol](#).



Sophie Wynne-Jones